# Symud y cymalau ar gyfer osteoarthritis yn y pigwrn

Rhagfyr 2015

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Nid oes tystiolaeth ddigonol er mwyn bod yn sicr ynglŷn â pha mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio na pha mor ddiogel ydyw. Am y rheswm hwn, dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y dylai'r driniaeth hon gael ei chyflawni.

### *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gall eich gweithiwr iechyd proffesiynol gynnig y driniaeth hon i chi. Cesglir manylion am eich triniaeth.

## Y cyflwr

Cyflwr sy'n gallu effeithio ar gymalau'r pigwrn yw osteoarthritis. Fe'i gwelir fwyaf mewn pobl dros 45 oed, ond gall effeithio ar bobl iau hefyd. Mae symptomau osteoarthritis yn y pigwrn yn cynnwys poen, anystwythder, chwyddo ac anawsterau wrth gerdded.

Mae sawl math o driniaeth a dyfais ar gael i bobl ag osteoarthritis yn y pigwrn, a all eich helpu i reoli eich cyflwr. Mae'r rhain yn cynnwys poenladdwyr a phigiadau steroid, ffisiotherapi a llawdriniaeth.

Mae NICE wedi ystyried defnyddio triniaeth i symud y cymalau ar gyfer osteoarthritis yn y pigwrn fel opsiwn triniaeth arall.

Gall NHS Choices a gwybodaeth NICE i'r cyhoedd am osteoarthritis fod yn fan da i gael mwy o wybodaeth.

## Y driniaeth

Mae symud y cymalau yn dechneg y gellir ei defnyddio i drin osteoarthritis yn y pigwrn. Prif esgyrn cymal y pigwrn yw'r talws (yn y droed) a'r tibia a'r ffibwla (yn y goes). Mae pen y ddau asgwrn wedi'u gorchuddio â haen o gartilag, sy'n gweithredu fel siocleddfwr yn y cymal. Os bydd unigolyn yn dioddef o osteoarthritis, daw'r cartilag yn arw ac yn denau gan ddatgelu pennau'r esgyrn.

Yn ystod y driniaeth hon, gosodir ffrâm fetel o amgylch y pigwrn tra bydd y claf o dan anesthetig cyffredinol neu anesthetig asgwrn cefn. Atodir y ffrâm i binnau a gaiff eu drilio drwy esgyrn y pigwrn. Caiff y cymal ei dynnu ar wahân ychydig gan ddefnyddio'r ffrâm, a fydd yn aros yn ei le am gyfnod o rhwng dau neu dri mis fel arfer. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd yr unigolyn yn gallu cerdded.

Y nod yw tynnu'r pwysau oddi ar y cymal ac annog y cartilag i drwsio ei hun.

## Buddiannau a risgiau

Pan edrychodd NICE ar y dystiolaeth, penderfynwyd nad oes digon o dystiolaeth i fod yn sicr ynglŷn â pha mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw. Roedd yr wyth astudiaeth a ystyriwyd gan NICE yn cynnwys tua 180 o gleifion.

Nododd rhai pobl fod ganddynt lai o boen ac anabledd, sawl mis neu flwyddyn ar ôl y driniaeth, ond ni chafodd pawb fudd o'r driniaeth.

Dangosodd yr astudiaethau fod risgiau symud cymalau yn cynnwys y canlynol:

- heintiau o amgylch y pinnau, a gafodd eu trin â gwrthfiotigau
- Poen neu ddiffyg teimlad o amgylch y pigwrn ar ôl y driniaeth, na wellodd yn gyfan gwbl mewn rhai pobl
- pinnau yn torri; cafodd rhai cleifion bin newydd ond dewisodd eraill dynnu'r pin
- cafodd un claf thrombosis gwythien-ddofn (clot gwaed mewn gwythïen) ar ôl y driniaeth, gan alw am driniaeth bellach arno.

Os hoffech wybod rhagor am yr astudiaethau, gweler y canllaw. Gofynnwch i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.

## Cwestiynau i'w gofyn i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?

- Beth yw’r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo’n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw’r risgiau’n fach neu’n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt o ddigwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o’i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae canllawiau ymyriadau NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio.

ISBN: 978-1-4731-1732-7